# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## EUR(2) 06-06 (p.3)

### Dyddiad: 12 Gorffennaf 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Bae Caerdydd
### Teitl: Cymru yn y Byd

#### Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgaredd Cysylltiadau Allanol Llywodraeth y Cynulliad.

#### Crynodeb

2. Mae gweithgareddau a blaenoriaethau rhyngwladol Llywodraeth y Cynulliad yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol, sy'n gysylltiedig ac yn ategu'i gilydd:

Cysylltiadau Rhyngwladol
Delwedd a Brandio Cymru
Hyrwyddo a Marchnata
Digwyddiadau ac Ymweliadau – mewnol ac allanol
Gweithio gyda phobl eraill a thrwyddynt

3. Mae'r papur yn rhoi amlinelliad o weithgareddau ym mhob un o'r meysydd hyn er pan gynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth sylweddol ar faterion cysylltiadau allanol ddiwethaf.

#### Gweithredu

4. Papur er gwybodaeth yw hwn yn anad dim.

#### Cysylltiadau Rhyngwladol

5. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi parhau i ddatblygu'r cysylltiadau sydd ganddi, ond rydym hefyd wedi ceisio agor a datblygu cysylltiadau newydd a allai fod o fudd i Gymru. Mae rhai o'n cysylltiadau wedi eu nodi mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol neu mewn dogfen debyg; nid felly gysylltiadau eraill, ond gall y rheiny fod yr un mor ystyrlon ac effeithiol os ydynt wedi eu seilio ar berthynas waith gadarn. Dyma grynodeb byr o'r cysylltiadau dwyochrog mwyaf gweithredol:

De Cymru Newydd (DCN) Nodwyd 10$^{fed}$ pen-blwydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â DCN ym mis Mehefin 2005. Roedd hynny'n cyd-daro ag ymweliad â Chymru gan Loftus Harris, Pennaeth

Adran Datblygu Taleithiau a Rhanbarthau Llywodraeth DCN. Mae'r berthynas yn parhau'n gynhyrchiol, yn arbennig ym maes addysg. Un enghraifft yw Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, sy'n dal i gydweithredu â Phrifysgol Newcastle DCN i ddatblygu technolegau asesu cyffredin i blant mewn angen.

Latfia - Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, a lofnodwyd ym mis Mai 2004, yn parhau i ffynnu, ac mae'n un o'r rhai mwyaf cynhyrchiol, gyda gweithgaredd ar draws amryfal feysydd llywodraeth leol, polisi rhanbarthol, yn arbennig cronfeydd strwythurol, masnach a datblygu economaidd, addysg, y celfyddydau a diwylliant. Mae Gweinidog Datblygu Economaidd Latfia yn dod â dirprwyaeth fasnach o 30 o gwmnïau i Gymru ar 12 Gorffennaf. Bydd taith fasnach o Gymru'n mynd i Latfia ym mis Hydref eleni.

Chubut, Ariannin - Bu ymweliad Prif Weinidog Cymru â thalaith Chubut ym mis Hydref 2005 yn hwb pellach i berthynas unigryw Cymru â Chubut. Mae Llywodraethwr Chubut wedi derbyn gwahoddiad i ymweld â Chymru ac mae'n bwriadu arwain dirprwyaeth fasnach a diwylliannol i Gymru yr hydref hwn, a dod ag arddangosfa o ffotograffau ac eitemau sy’n gysylltiedig â'r berthynas arbennig rhwng y Cymry a'r Tehuelche er pan laniodd y Cymry ym Mhatagonia. Bwriedir adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yr un pryd er mwyn cadarnhau rhai meysydd lle gellid cydweithredu.

Silesia - Mae'r berthynas yn parhau i weithio'n dda, yn arbennig ym meysydd llywodraeth leol, addysg, polisi rhanbarthol a Chronfeydd Strwythurol, y celfyddydau a diwylliant. Mae cydfenter marchnad lafur yn cael ei datblygu â chyllid gan yr UE. Ailgadarnhaodd Prif Weinidog Cymru y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ystod ei ymweliad â Silesia ym mis Tachwedd.

Catalunya - Mae ymrwymiadau eraill a'r datblygiad cyflym yn y sefyllfa wleidyddol yng Nghatalunya wedi rhwystro'r Arlywydd Maragall hyd yma rhag ymweld â Chymru fel y bwriadwyd. Er hynny, mae'r berthynas â Chatalunya'n parhau, a hynny'n ddwyochrog - yn bennaf ym maes addysg - a thrwy ddiddordeb cyffredin mewn rhwydweithiau rhanbarthol. Er bod y refferendwm ar ddatganoli pellach wedi mynd heibio'n llwyddiannus erbyn hyn, mae llywodraeth Maragall wedi colli ei phartner yn y glymblaid, ac mae etholiadau buan ar y gorwel.

Llydaw - Yn ystod ymweliad â Llydaw ym mis Mehefin 2006 llofnododd Prif Weinidog Cymru ac Arlywydd Llydaw Gynllun Gweithredu i ategu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n bodoli. Mae'n nodi amryfal amcanion ym meysydd datblygu cynaliadwy; datblygu economaidd ac arloesi; amaethyddiaeth a datblygu gwledig; pobl ifanc, addysg, hyfforddiant, ymchwil; yr amgylchedd; iechyd; chwaraeon, twristiaeth, yn arbennig mewn perthynas â hwylio a chwaraeon dwr; polisi diwylliant ac iaith; cyfnewid rhwng trefi ac awdurdodau lleol; a materion Ewropeaidd. Bu Prif Weinidog Cymru hefyd yn annerch Cyngor Rhanbarthol Llydaw mewn cyfarfod llawn yn ystod ei ymweliad.

Chongqing - Ym mis Mawrth 2005 llofnododd Prif Weinidog Cymru a'r Is-faer Wu Jianong o Fwrdeistref Chonquing Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd i gydnabod ein perthynas fwyfwy pwysig â phrif ddinas De-orllewin Tsieina. Saif Chongqing ar Afon Yangtze i fyny'r afon o'r Tri Cheunant. Eisoes mae'n un o'r tri chanolbwynt ar gyfer twf economaidd o dan Strategaeth Datblygu

Gorllewinol Tsieina, a bydd ei phwysigrwydd yn cynyddu pan gwblheir prosiect argae'r Tri Cheunant yn 2008. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi ein bwriad i gydweithio er budd y naill a'r llall ym meysydd datblygu'r economi a masnach; addysg a hyfforddiant; yr amgylchedd; diwylliant; llywodraethiant; ac amaethyddiaeth. Er pan lofnodwyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mae dirprwyaeth o gynrychiolwyr y diwydiant adeiladu ac eiddo wedi ymweld â Chymru ym mis Ebrill ac mae'r cynlluniau ar gyfer diwedd y flwyddyn yn cynnwys ymweliad â Chymru ym mis Medi gan yr Is-faer Chen Guang Guo. Mae taith fasnach a dirprwyaeth addysg o Gymru’n bwriadu ymweld â Chongqing ym mis Hydref.

Emilia Romagna - Mae gennym berthynas sy'n datblygu â rhanbarth Emilia Romagna yn yr Eidal. Rydym yn ystyried ffurfioli'r berthynas trwy ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

6. Mae ymwneud Llywodraeth Cynulliad Cymru â rhwydweithiau amlwladol a/neu ranbarthol wedi parhau, e.e.:

NRG4SD - Mae Cymru ar hyn o bryd yn Gadeirydd Ewropeaidd Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy (NRG4SD) ac yn Is-gadeirydd NRG4SD. Yn ddiweddar mae'r Rhwydwaith wedi mabwysiadu papur o dan arweiniad Cymru ar Ieithoedd Lleiafrifol.

Reg Leg - Yn 2006 Cymru yw Llywydd Cynhadledd y Rhanbarthau Ewropeaidd â Phwerau Deddfwriaethol (Reg Leg). Yn ystod ein llywyddiaeth rydym wedi sefydlu Cyd-grwp Pwyllgor y Rhanbarthau ar gyfer aelodau sy'n cael eu mandadau oddi wrth Lywodraeth neu Senedd Ranbarthol. Yn y cyfarfod agoriadol etholwyd Mr Schausberger o Salzburg yn Llywydd a Rosemary Butler AC yn ail Is-lywydd. Ym mis Tachwedd, bydd Cymru'n croesawu Cynhadledd Llywyddion y Rhanbarthau â Phwer Deddfwriaethol yng Nghaerdydd.

EARLALL - Mae sefyllfa'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau fel Is-lywydd Cymdeithas Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol Ewrop dros Ddysgu Gydol Oes (EARLALL) yn gyfle i gadarnhau cysylltiadau â rhanbarthau EARLALL eraill a chael mwy o sylw i Gymru. Mae aelodaeth o EARLALL yn gyfle gwerthfawr i ranbarthau gydweithio â'i gilydd, nid yn unig i rannu gwybodaeth ac arferion gorau ond hefyd i sbarduno cyd-brosiectau datblygu rhwng rhanbarthau. Mae EARLALL hefyd yn llwyfan i aelod- ranbarthau roi sylwadau ar y cyd ar ddatblygu polisi o fewn yr Undeb Ewropeaidd, a thros y ddwy flynedd ddiwethaf bu’r gymdeithas yn gweithio tuag at fod yn gorff dylanwadu trwy gryfhau ei chysylltiadau â'r Comisiwn. Mae aelodaeth o EARLALL yn ffordd bwysig ac ymarferol i Gymru gymryd rhan lawn yn Ewrop yn ei hawl ei hun.

## Delwedd a Brandio Cymru

7. Eleni gwelwyd penllanw ymarfer i ddatblygu brand newydd i Gymru. Yr amcan oedd cael brand a fyddai'r un mor berthnasol i'r rhai sy'n hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i ymwelwyr ag i'r sawl sy'n hyrwyddo Cymru fel partner busnes neu le i astudio; brand a fyddai'n symbylu pobl Cymru lawn cymaint â'r byd y tu allan.

8. Canlyniad y gwaith hwnnw yw brand sy'n cyfleu Cymru fel cenedl o 'feddylwyr gwreiddiol’; cenedl sy'n barod i ddilyn ei thrywydd ei hun; pobl angerddol nad ydynt yn ofni lleisio eu barn;

gwlad na lurgunir ei barn gan ddylanwadau allanol; gwlad sy'n coleddu diwylliant a chreadigrwydd; a lle sy'n ymfalchïo mewn bod yn wahanol ac sy'n cofleidio arloesi a meddwl mewn amryfal gyfeiriadau.

9. Yn y dyfodol byddwn yn ein cyflwyno ein hunain ar sail tri o werthoedd allweddol sy'n ymwneud ag:

Ysbryd y bobl a ddisgrifir fel a ganlyn: pobl onest, ddi-lol a diymhongar; pobl deg, ystyriol ac egalitaraidd, gyda synnwyr cryf o'r hyn sy'n gywir ac anghywir; pobl emosiynol ac angerddol, gyda gwir hunaniaeth a synnwyr o berthyn i'w gwlad; a phobl sy’n falch o hanes a diwylliant unigryw eu gwlad

Ysbryd y lle a ddisgrifir fel a ganlyn: gwlad fechan, hawdd ei rheoli, a gwlad sy’n ddynol, nid yn ddiffeithwch anghysbell ac ynysig; gwlad agored, hygyrch a llawn angerdd a chynhesrwydd ei phobl; gwlad sy’n benderfynol o greu cymuned deg lle mae gwerth i bawb; cymdeithas gynhwysol sy'n cynnig cyfle i bawb wireddu ei addewid

Agwedd genedlaethol sydd: yn herio confensiynau, ond nid mewn ffordd ymosodol na thrwy wrthdaro; sy’n gyson yn herio'r sefyllfa sydd ohoni, gan edrych am atebion gwreiddiol a gwahanol i'w datblygu a'i gwella ei hun fel cenedl; sy’n ymfalchïo mewn bod yn wlad fechan alluog sydd â syniadau mawr, ac sy'n cyflawni mwy na'r disgwyl i wlad o'i maint; ac sy’n ei chyfleu ei hun bob amser â brwdfrydedd ac egni, gan herio stereoteipiau negyddol

10. Mae canllawiau brand yn cael eu datblygu fel y gellir rhyddhau'r brand fesul cam trwy gyfrwng pob menter hyrwyddo a marchnata fel y digwyddant. Dros y misoedd sydd i ddod byddwn yn datblygu cyfres newydd o ddeunyddiau cyfathrebu a marchnata i ategu'r brand newydd; bydd y deunyddiau hyn yn cymryd lle'r hen ddeunyddiau fel y byddant yn dirwyn i ben.

11. Trefnwyd cyflwyniad manylach ar frand Cymru i aelodau o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a’r Pwyllgor Menter, Arloesi a
Rhydweithiau ar 12 Mehefin.

## Hyrwyddo a Marchnata Cymru

12. Rydym wedi bod yn defnyddio Dydd Gwyl Ddewi fel cyfle i dynnu sylw at Gymru dramor, a byddwn yn parhau i wneud hynny, yn arbennig lle mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bresenoldeb dramor a thrwy weithio gyda Chanolfannau’r Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'r cyfryngau. Ymhlith yr enghreifftiau penodol o hyn y mae:

13. Digwyddiadau i arddangos Cymru sy'n helpu i gynyddu amlygrwydd cyhoeddus Cymru mewn marchnadoedd targed trwy ddefnyddio gwybodaeth ryngweithiol, arddangosiadau bwyd a pherfformiadau gan artistiaid o Gymru. Ym mis Mawrth 2005 cynhaliwyd sioe i arddangos Cymru yn Dubai, flwyddyn ar ôl agor y swyddfa fasnach yno, ac ym mis Mawrth 2006 cyfrannodd y Sioe Arddangos yn Hong Kong at ddatblygu’r berthynas â Tsieina; roedd y Sioe hefyd yn cyd-daro â llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Chongqing. Yn y naill achos a'r llall roedd taith

fasnach yn cyd-daro ag amseriad y sioe arddangos a rhaglen gysylltiedig o weithgareddau a drefnwyd i ennyn diddordeb sectorau ac unigolion targed yn uniongyrchol.

14. Mae rhaglenni 'Gwyl Ddewi' sy'n digwydd yn ystod yr wythnos o gwmpas 1 Mawrth i hyrwyddo Cymru trwy amryfal weithgareddau fel arddangosfeydd, seminarau, derbyniadau a pherfformiadau artistig bellach wedi eu hen sefydlu yn Efrog Newydd a Brwsel lle mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru staff yn gweithio.

15. Mae Gweinidogion hefyd wedi croesawu'r Corfflu Diplomyddol a leolir yn Llundain mewn digwyddiadau i nodi Gwyl Ddewi - mewn derbyniad a gynhaliwyd yn y Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn Llundain yn 2005, ac mewn cinio yn Stadiwm y Mileniwm yn 2006.

16. Yn 2006 hefyd cynhyrchwyd bocs hyrwyddo gennym i arddangos peth o'r cynnyrch Cymreig safonol a gynigir gan Gymru. Cafodd y bocs dderbyniad da iawn gan y nifer fawr o wahoddedigion rhyngwladol yn ein digwyddiadau Gwyl Ddewi .

17. Trwy gyfrwng cysylltu parhaus, gwybodaeth i'w cyfryngau lleol a neges flynyddol gan Brif Weinidog Cymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog a chefnogi Canolfannau'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad o amgylch y byd i nodi Gwyl Ddewi.

18. Mae'r cyfleoedd a ddarperir gan ddatblygu brand newydd Cymru ynghyd ag uno Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru â Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynyddu'r cyfle i sicrhau cysondeb negeseuon a delwedd yn ein gweithgareddau hyrwyddo ac yn y deunyddiau marchnata a ddefnyddir i hyrwyddo Cymru.

19. Yn dilyn yr uno, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bellach bresenoldeb yn Amsterdam, Bangalore, Beijing, Brwsel, Chicago, Dubai, Dulyn, Hong Kong, Houston, Milan, Munich, Efrog Newydd, Ontario, Paris, San Francisco, Seoul, Shangai, Singapore, Sydney, Taipei a Tokyo, ac rydym ar hyn o bryd yn edrych ar y ffyrdd y gall y rhain gyfrannu orau at hyrwyddo Cymru yn y dyfodol.

20. O safbwynt tynnu sylw at Gymru mae'n hanfodol manteisio'n llawn ar bosibiliadau hyrwyddo a marchnata prif ddigwyddiadau sy'n effeithio ar Gymru ond nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu harwain. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys digwyddiadau mawr yn y campau sy'n dod i Gymru a'r DU, fel Gêm Brawf y Lludw yng Nghaerdydd yn 2009; Cwpan Ryder 2010; Gemau Olympaidd Llundain yn 2012.

21. Enghraifft o gyfleoedd eraill y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu defnyddio i gyfleu'r neges am Gymru yw Parti Pen-blwydd y Frenhines eleni a gynhaliwyd gan Lysgennad Prydain yn Rhufain. Cynorthwyodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Llysgenhadaeth i roi thema Gymreig i'r digwyddiad, o ran brandio, bwydlen, adloniant a llenyddiaeth hyrwyddo. Roedd yn gyfle i dynnu sylw at Gymru a hyrwyddo cynnyrch bwyd Cymru yn y digwyddiad a thrwy gyfleoedd yn y cyfryngau.

**Digwyddiadau ac Ymweliadau**

22. Ar achlysuron eraill mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n arwain y gwaith o lwyfannu digwyddiadau neu bresenoldeb Cymreig mewn digwyddiadau tra amlwg sydd wedi eu hen sefydlu.

23. Mae digwyddiadau fel Sioeau Arddangos Cymru a derbyniadau diplomyddol Gwyl Ddewi eisoes wedi eu cynnwys yn gynharach yn y papur hwn. Ymhlith enghreifftiau eraill o ddigwyddiadau ar gyfer cynulleidfa ryngwladol yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn cafwyd: y Gymnich i Weinidogion Tramor yng Nghasnewydd a'r Cyngor Cystadleugarwch yng Nghaerdydd a gynhaliwyd o dan lywyddiaeth y DU ar yr UE yn 2005; Cynhadledd Ddiplomyddion "Y Byd yng Nghymru" yng Nghaerdydd ym mis Mehefin 2005; Cynhadledd Canada-y DU a gynhaliodd ei chyfarfod blynyddol yng Nghymru am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2005.

24. Eleni, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n llwyfannu arddangosfa yn Amgueddfa Ynys Ellis yn Efrog Newydd rhwng mis Mehefin a mis Medi 2006. Bydd yr arddangosfa'n adrodd hanes yr ymfudo o Gymru i America. Rhagwelir y bydd tua miliwn o bobl yn ymweld â'r arddangosfa yn ystod y cyfnod hwn.

## Ymweliadau Allanol

25. Mae ymweliadau tramor gan Weinidogion i gefnogi'r digwyddiadau uchod neu i arwain teithiau masnach neu fynychu cyfarfodydd a chynadleddau rhyngwladol a chymryd rhan ynddynt yr un mor gynhyrchiol o ran tynnu sylw ac ehangu dylanwad.

26. Wrth wneud gwaith y llywodraeth, mae Gweinidogion wedi ymweld â nifer o wledydd tramor ac adroddwyd am yr ymweliadau hyn eisoes wrth y Pwyllgor. Y tu allan i fusnes yr UE roedd yr ymweliadau hyn yn cynnwys:

Mae Prif Weinidog wedi ymweld ag Ariannin, Llydaw, Tsieina (Hong Kong, Chongqing), Dubai ac Abu Dhabi, Irac, Gwlad Pwyl, Fietnam.
Mae'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau wedi ymweld â Llydaw, Canada, Dubai, Sbaen, UDA.
Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad wedi ymweld ag Amsterdam, Brwsel, Dubai, yr Almaen, Ghana, De Affrica, Sumatra
Mae'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi ymweld â Sbaen, yr Eidal, Lesotho;
Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymweld â Dulyn, Norwy;
Mae'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth leol a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymweld â Dulyn, Denmarc, Sweden;
Mae'r Gweinidog dros Ddiwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon wedi ymweld â Fenis, Efrog Newydd, Melbourne.

## Ymweliadau â Chymru

27. Mae ymweliadau â Chymru gan bwysigion a dirprwyaethau yn ffordd arall o wneud Cymru’n fwy amlwg. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ceisio denu ymwelwyr dylanwadol i Gymru, a bydd yn parhau i wneud hynny, yn arbennig rai a all hyrwyddo achos Cymru mewn marchnadoedd

neu feysydd arbennig, e.e. arweiniodd ymweliad gan ddirprwyaeth o'r Emiraethau Arabaidd Unedig at godi'r gwaharddiad ar allforio wyn o Gymru i'r Emiraethau.

28. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ymhlith y gwledydd a'r rhanbarthau y derbyniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymwelwyr ohonynt yr oedd:

Ariannin, Armenia, Awstralia (Victoria, DCN, Gorllewin Awstralia), Bhutan, Botswana, Brasil, Canada (Quebec), Tsieina (Chongqing, Guangdong), Croatia, y Weriniaeth Tsiec, Gabon, yr Almaen, India, Irac, Israel, yr Eidal (Lombardi, Twsgani), Kazakhstan, Korea, Latfia, Lesotho, Malaysia, Montenegro, Oman, Pacistan, Saudi Arabia, Slofenia, Sbaen, Sweden, y Swistir, Trinidad, Twrci, Gweriniaeth Wdmwrt, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, UDA, Fietnam

29. Yn ogystal â digwyddiadau a oedd yn cynnwys y Corfflu Diplomyddol, mae digwyddiadau dwyochrog Gweinidogol wedi digwydd gyda Llysgenhadon neu bersonél cyfatebol o'r Ariannin, Armenia, Brasil, Canada, Chile, Tsieina, y Weriniaeth Tsiec, Gabon, yr Almaen, Hwngari, Israel, yr Eidal, Japan, Kazakhstan, Latfia, Lesotho, Lithwania, Malaysia, Malta, Mecsico, Pacistan, Rwsia, Saudi Arabia, Slofenia, Sbaen, Sweden, y Swistir, Twrci, UDA.

## Gweithio gyda phobl eraill a thrwyddynt

30. Er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf i Gymru am yr arian lleiaf mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i weithio gyda phobl eraill a thrwyddynt.

31. Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad, gan gynnwys eu canolfannau tramor, yn dal i fod o gymorth sylweddol ar draws yr amrediad o weithgareddau. Ag anogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae Dydd Gwyl Ddewi bellach wedi'i sefydlu yng nghalendr llawer o ganolfannau tramor ac mae hyn wedi galluogi neges Gwyl Ddewi Prif Weinidog Cymru i gyrraedd cynulleidfa lawer ehangach.

32. Cynrychiolir Llywodraeth y Cynulliad ar Grwp Partneriaid Diplomyddiaeth Gyhoeddus y Swyddfa Dramor a Chymanwlad - panel cynghori yw hwn a ffurfiwyd i gynghori a chefnogi Bwrdd Diplomyddiaeth Gyhoeddus Llywodraeth y DU. Mae'r grwp yn cynnwys cynrychiolwyr o adrannau Llywodraeth y DU, Gweinyddiaethau Datganoledig eraill a Chyrff Cyhoeddus Anadrannol.

33. Rydym yn dal i gydweithio'n agos â chyrff yn y DU fel Visit Britain ac UKTIE sy'n rhoi cymorth gyda digwyddiadau tramor a theithiau masnach.

34. Mae Llywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor Prydeinig yng Nghymru'n cydweithio'n agos â'i gilydd. Mae'r berthynas waith hon yn un ffrwythlon i'r naill ochr a'r llall ac arweiniodd at fwy o ymwneud â’r Cyngor Prydeinig yn y DU a swyddfeydd y Cyngor Prydeinig dramor. Er enghraifft, mae swyddfa'r Cyngor Prydeinig yn Chongqing yn helpu i hyrwyddo'r berthynas mewn nifer o feysydd - addysg, y celfyddydau a diwylliant.

35. Mae perthynas Llywodraeth Cynulliad Cymru â'r Corfflu Diplomyddol yn Llundain yn mynd o nerth i nerth ar sail eu profiad cadarnhaol o Gymru a digwyddiadau Cymreig. Rydym hefyd yn

parhau i weithio i gael rhagor o gonsyliaid amser-llawn yng Nghymru.

36. Yn 2005 a 2006 mae pum Conswl anrhydeddus arall wedi ymuno â Chymdeithas y Consyliaid yng Nghymru - yn cynrychioli'r Weriniaeth Tsiec, Estonia, Iorddonen, Kazakhstan a Slofacia. Mae 23 o wledydd bellach yn cael eu cynrychioli gan gonsyliaid anrhydeddus yng Nghymru. At hynny, mae gan Iwerddon gynrychiolydd parhaol yma, mae gan Lysgenhadaeth yr UD is-swyddfa yng Nghaerdydd ac mae gan y Comisiwn Ewropeaidd swyddfa gynrychioli lawn. Gweithiwn gyda hwy yn unigol ac fel grwp a byddwn yn parhau i wneud hynny.

37. Rydym yn cysylltu â Chonsortiwm Rhyngwladol Cymru, sefydliadau Addysg Uwch unigol, fforwm a'r rhwydwaith rhyngwladol o sefydliadau addysg bellach ar y cyfleoedd posibl ar gyfer addysg yn y farchnad ryngwladol.

38. Rydym yn dal i weithio gyda rhannau eraill o'r sector cyhoeddus i roi hwb i agenda hyrwyddo Cymru, yn arbennig y sector amgueddfeydd a llyfrgelloedd. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru’n ymwneud yn agos â'r arddangosfa yn Amgueddfa Ymfudo Ynys Ellis yn Efrog Newydd.

39. Gobeithiwn gael rhagor o gyfraniad gan y sector preifat at hyrwyddo Cymru, yn ychwanegol at yr hyn a wneir eisoes trwy ymweliadau cwmnïau/teithiau masnach ac arddangosfeydd dramor. Er enghraifft, cyfrannodd y sector preifat at brosiect Gwasanaethau Amgylcheddol ym Moroco a oedd yn cynnwys y Pedwar Rhanbarth Sbardun, Cymru a Fflandrys.

## Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol Cymru

40. Mae'r papur hwn wedi canolbwyntio ar weithgarwch cysylltiadau allanol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yr un pryd, mae'r Llywodraeth hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith ar yr agenda datblygu rhyngwladol.

41. Denodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol Cymru 273 o ymatebion gan unigolion a sefydliadau ar draws Cymru. Bydd y Fframwaith, sydd wedi cael croeso cynnes, yn cynyddu gallu Cymru i gyfrannu at wireddu Nodau Datblygu'r Mileniwm y Cenhedloedd Unedig. Bydd hefyd yn sicrhau y gall Llywodraeth y Cynulliad gydgysylltu ymateb Cymru i drychinebau ac argyfyngau rhyngwladol yn well. Ar ôl ystyried yr ymatebion y bwriad yw lansio'r fframwaith terfynol yn yr hydref.

## Casgliad

42. Mae'r papur hwn wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch yr amrywiaeth eang o weithgareddau cysylltiadau allanol Llywodraeth y Cynulliad. Y bwriad yw rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor yn y dyfodol.